**Alex Swift**
Croeso, croeso, dyma bodlediad yr Exchange. Dwi yma gyda Harriet Rees a Simon Papworth. Sut ydych chi eich dau?

**Simon Papworth**
Da iawn diolch.

**Harriet Rees**
Ie, da iawn.

**Alex Swift**
Podlediad yw hwn i gefnogi'r ymgyrch bresennol i recriwtio graddedigion. Felly, hoffet ti ddechrau drwy esbonio pam y gwnest ti ddewis Swyddfa Archwilio Cymru?

**Harriet Rees**
Felly dewisais i Swyddfa Archwilio Cymru… ro'n i'n nabod rhywun oedd yn gweithio yn Swyddfa Archwilio Cymru wnaeth fy nghyflwyno i iddyn nhw a dweud y dylwn i ymgeisio. Felly, fe wnes i. Ond bryd hynny, ro'n i wedi cael eithaf lot o gyfweliadau'n barod a sawl cynnig ar gyfer cynlluniau ôl-radd eraill, felly ro'n i wedi penderfynu'n barod, fwy neu lai, mod i'n mynd i rywle arall ac wedyn pan ges i fy nghynnig i wneud y ganolfan asesu ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, ro'n i'n meddwl, wel, does gen i ddim byd i'w golli, felly fe ddylwn i fynd i weld sut le sydd yno. A drwy'r dydd, ro'n i'n teimlo fel pe bai pawb ro'n i'n cwrdd â nhw ar fy ochr i a byddai pawb oedd yn pasio'n stopio i ddweud helo a chyflwyno'u hunain. A dwi erioed wedi bod i'r un ganolfan asesu arall fel'na, a dwi'n meddwl mod i wedi teimlo fod y gwerthoedd yn teimlo'n wahanol, a gadewais y ganolfan asesu gan deimlo mod i eisiau bod yn rhan ohono, a mod i fel pe bawn i'n colli ar rywbeth o beidio â chael y swydd. Felly, do, fe wnaeth e newid fy meddwl, ac fe wnes i wrthod fy nghynigion eraill o ganlyniad.

**Simon Papworth**
Ie, fi hefyd; ro'n i'n meddwl y baswn i'n gwneud cyflwyniad bach. A, chi'n gwybod, wnes i erioed freuddwydio mynd yn gyfrifydd na hyfforddi i fod yn gyfrifydd siartredig. Ond ar ôl ysgol, do'n i ddim yn gwybod beth ro'n i eisiau ei wneud, a dwi'n meddwl fod llawer o bobl yn cael y teimlad yna. Felly gymerais i flwyddyn i ffwrdd cyn mynd i'r brifysgol, a dechreuais ddilyn cwrs byr, AAT. Ges i flwyddyn o astudio cyfrifeg i weld sut beth oedd e, a fyddwn i'n ei fwynhau ai peidio. Roedd gen i gynnig wedi'i ohirio i astudio daearyddiaeth a hanes. Felly wnes i astudio hynny ym Mhrifysgol Abertawe am flwyddyn, a meddwl 'dwi wir ddim yn hoffi hyn. Dyw hyn ddim i fi.' Ro'n i'n mwynhau bywyd prifysgol. Do'n i ddim yn mwynhau daearyddiaeth a hanes o'r math yna, felly penderfynais newid i gyfrifo a chyllid, ac wedyn astudio am dair blynedd. Ac wedyn gwrddais i â rhywun o Swyddfa Archwilio Cymru mewn ffair yrfaoedd ac fe wnaethon nhw esbonio am y gwaith roedden nhw'n ei wneud, a gwerth y gwaith hwnnw. Dwi'n meddwl fod hynny'n bwysig iawn i fi. Gallech chi weithio i gwmni rhyngwladol mawr ac mae popeth yn ymwneud ag elw, on'd yw e? Ar ddiwedd y dydd. Fe wnes i wir goleddu'r syniad, wyddoch chi, fod hyn yn waith gwerthfawr yn y sector cyhoeddus, ac mae'n golygu llawer. Mae'r gwaith sy'n digwydd yn

y sector cyhoeddus yn wirioneddol bwysig i gymdeithas a phoblogaeth Cymru. Ac mae'n bwysig craffu ar hynny hefyd, i sicrhau eu bod nhw'n ei wneud yn iawn. Felly dyna oedd yr atyniad mawr i fi.

**Harriet Rees**
Wel, fe es i i'r brifysgol i wneud deintyddiaeth. Ac felly, fe wnes i'r flwyddyn gyntaf o ddeintyddiaeth ym Mryste, ac wedyn, roedd hi tua phythefnos cyn dechrau'r ail flwyddyn ac fe darodd fi 'dyw hyn ddim i fi o gwbl'. Ac felly, ro'n i'n gallu pasio fy nghymhwyster ymlaen, fel lefel pasio fy mlwyddyn gyntaf, a mynd yn syth i'r ail flwyddyn ond cael gradd mewn gwyddor arall. Felly, fe es i a gwneud Ffisioleg, sef sut mae'r corff dynol yn gweithio ac fe wnes i arbenigo mewn anhwylderau seiciatrig. Ac wedyn fe orffennais yn y brifysgol a do'n i ddim yn gwybod beth ro'n i eisiau gwneud Felly fe ges i swydd mewn meddygfa a gweithio yno fel derbynnydd ac wedyn ges i syniad y dylwn i efallai wneud cyfrifo am mod i wir yn hoffi mathemateg a nawr dwi yma. Dwi fel, 'o Duw, roedd hwnna'n benderfyniad enfawr i'w wneud' ond mae'n wirioneddol ddiddorol oherwydd dwi'n meddwl taw'r sgiliau mwyaf fyddwch chi'n eu dysgu yn y brifysgol ac nid o reidrwydd yn y pynciau rydych chi'n eu hastudio. Mae'n fwy am y pethau rydych chi'n eu dysgu amdanoch chi eich hun, y ffordd rydych chi'n astudio. Y math yna o beth. A dwi'n meddwl mai dyna'n sicr yr ydw i wedi parhau ag ef, nawr gan fynd i mewn i ddysgu a gweithio, heb os.

**Alex Swift**
Ar yr un pwynt yna am ddysgu, ga i ofyn, beth yn eich barn chi yw prif fanteision y rhaglen i raddedigion?

**Simon Papworth**
Ie, dwi'n meddwl taw'r un mawr yw eich bod chi'n cael eich hyfforddi i fod yn gyfrifydd siartredig ac rydych chi'n gwybod eich bod chi ar y math o hyfforddiant ICAW ar gyfer ACA, sydd yr un peth â'r pedwar mawr. Os ydych chi'n edrych ar y pedwar mawr, fel PWC, KPMG, Deloitte, maen nhw'n gwneud yr un peth. Chi'n gwybod, mae'r enw da yr un peth. Felly rydych chi'n astudio i gael cymhwyster gwirioneddol o safon, ac maen nhw'n talu am eich astudiaethau ar gyfer hwnnw. Felly rydych chi'n mynd am Caplan, rydych chi'n mynd i'r coleg, rydych chi'n astudio ar eu cyfer ac rydych chi'n cael y gefnogaeth gywir ar gyfer hynny hefyd a hefyd yn eich gwaith, rydych chi'n cael y rheolwr llinell ac maen nhw'n wirioneddol gefnogol hefyd. Gallwch chi gael cyfarfod gyda nhw ar unrhyw adeg i drafod eich datblygiad addysgol, Felly, i fi, dyna'r math o ddau brif faes sy'n helpu gyda'ch addysg a'ch datblygiad.

**Harriet Rees**
Ie, faswn i'n cytuno, yn amlwg rydych chi yn eich hanfod yn hyfforddi ac yn ennill arian ar yr un pryd, sy'n beth enfawr o gadarnhaol yn ein hoedran ni, am fod popeth yn costio arian. Ond, am wn i, mae hi hefyd yn neis dechrau ar swydd gyda llawer o bobl eraill sydd yn yr un safle â chi. Felly drwy fod mewn cohort, nid chi yw'r unig un newydd, ac mae gyda chi lawer sydd naill ai'n profi'r un peth ar yr un pryd neu un flwyddyn ar y blaen i chi, dwy flynedd ar y blaen, ac ati, ac wedyn, yn amlwg, fe ddywedodd Simon fan'na am y rheolwyr llinell. Mae gyda chi 'bydis' hefyd. A holl rwydwaith Swyddfa Archwilio Cymru, mae pawb yn eich gwthio rywsut yn eich datblygiad, ac maen nhw'n blaenoriaethu eich datblygiad chi. Ac mae jôc barhaus yn ogystal sef, fel rhan o'ch ffeil hyfforddi mae'r

pethau hyn a elwir yn ysgolion, ac mae rhai pethau y mae'n rhaid i chi eu ticio i ffwrdd – fe allai fod yn rhywbeth fel 'meddwl yn greadigol' neu 'rheoli tîm' a rhaid i chi roi enghreifftiau o'r troeon rydych chi wedi gwneud hynny drwy gydol eich hyfforddiant, a'r jôc barhaus yw y bydd rheolwyr yn eich gwthio chi i wneud pethau a byddan nhw'n dweud 'gei di dicio ysgol arall i ffwrdd os wnei di hynny'. Oes, dwi'n meddwl fod llawer o gefnogaeth. Mae'n rhwydwaith enfawr ac mae'n eich gollwng chi'n raddol i mewn i fyd gwaith, ac allan o fywyd prifysgol ac i fyd gwaith ychydig ar y tro.

**Simon Papworth**
A hefyd, dwi newydd gofio mae gyda chi ddewis i ni gael secondiad hefyd, felly gallwch fynd am un mewnol. Gallwch weithio ar archwiliad perfformiad neu gallwch weithio mewn maes arall o'r sector cyhoeddus ac mae'n rhoi mewnwelediad newydd i chi ar faes arall o gyfrifo. Felly, rydych chi'n gwybod hyd yn oed drwy ddewis bod yn hyfforddai gyda Swyddfa Archwilio Cymru, dydych chi'n dal ddim wir yn gwybod ble hoffech chi fod yn y pen draw, felly maen nhw'n rhoi blwyddyn o gyfle i chi weld rhywle arall, sy'n werthfawr iawn.

**Alex Swift**
Ie, dy bwynt di am fynd yn raddol i fyd gwaith, Harriet; yn amlwg mae'n hollol naturiol becso am ddod i fywyd gwaith Beth fyddet ti'n ei ddweud wrth rywun sy'n dechrau yn Swyddfa Archwilio Cymru neu rywle tebyg, sy'n naturiol bryderus neu'n becso am ddechrau yma?

**Harriet Rees**
Wel, dwi mewn safle gwahanol ble roedd gen i swydd arall cyn i fi ddod, felly dwi wedi gweithio ers mod i tua 15, Ond dwi'n meddwl mod i'n becso drwy ddod o brifysgol be rydych chi ond yn astudio ac wedyn yn cael swydd ble rydych chi'n ond yn gweithio – mae'r ddau'n wahanol iawn. Ond pan ddewch chi i'r swydd hon byddwch chi'n gweithio ac yn astudio ar yr un pryd, a dwi'n meddwl fod hynny wedi codi ofn arna i a dwi'n meddwl ei bod hi'n bwysig cofio fod gan bawb yr un math o nod i chi. Nid achos o pan fyddwch chi yn y gwaith, bydd pobl yn dweud pethau fel 'ok, wel nawr rwyt ti'n gweithio a ddylet ti ddim gwneud dim byd fan hyn i helpu gyda dy astudiaethau'. Dydyn nhw ddim ar wahân, maen nhw wedi'u cyfuno, ac mae 'na gefnogaeth yno i chi. Wrth gwrs, yn naturiol byddwch chi'n bryderus am y peth ond dwi ddim yn meddwl, dwn i ddim ydy Simon yn cytuno… dwi'n meddwl fod y syniad ohono fe'n waeth nag ydyw mewn gwirionedd.

**Simon Papworth**
Ie. Wrth gwrs, mae'n hawdd i ni ddweud 'peidiwch â becso amdano fe. Mae'n hollol iawn', ond wrth gwrs, fel ni, ni wedi bod yn y sefyllfa yna ble roedden ni'n nerfus am y diwrnod cyntaf. Ond am beth ydych chi'n becso? Rydych chi'n becso na fyddwch chi ddim yn ddigon da. Rydych chi'n becso y bydd pobl yn dweud 'dwyt ti ddim yn gweithio'n ddigon caled', neu 'dwyt ti ddim yn ddigon da i fod yma' ond y gwir amdani yw bod pawb yn dechrau o'r un lle a dydyn nhw ddim yn disgwyl pethau enfawr ohonoch chi ar y dechrau. Chi'n gwybod, maen nhw'n sylweddoli eich bod chi'n dod i mewn ar lefel ble dydych chi ddim yn gwybod dim byd o gwbl, felly y cyfan maen nhw eisiau i chi ei wneud yw holi cwestiynau.

**Harriet Rees**
Ie, fe ddywedodd rhywun wrtha i pan ddechreuais i gyntaf mai gwaith archwilydd yw gofyn cwestiynau, felly paid â bod ofn gofyn, Felly dwi'n meddwl fod hynny'n wir am y cyfan.

**Alex Swift**
Diolch i chi eich dau am yr ymatebion yna; a sôn am brosesau i chwalu'r nerfau, dywedwch ychydig wrthym ni am y broses asesu a sut brofiad oedd hynny i chi.

**Simon Papworth**
Mae siŵr o fod yn wahanol iawn, achos wnest ti ddechrau yn ystod Covid?

**Harriet Rees**
Dechreuais i ym mis Hydref 2020. Fe wnes i fy nghanolfan asesu wyneb yn wyneb, ond fe ges i'r cyfweliad dros Skype.

**Simon Papworth**
Felly, dwi'n dod i mewn i fy nhrydedd flwyddyn dan hyfforddiant a dwi'n ceisio cofio beth yn union wnaethon ni. Felly, ie, byddech chi'n troi lan yn y swyddfa ar Ffordd y Gadeirlan. Siŵr o fod, fyddech chi'n nerfus fel oeddwn i a byddai Siân, y cydlynydd hyfforddeion yn eich cyfarch, ac mae hi'n hyfryd. Mae hi'n gallu cynnal sgwrs gydag unrhyw un a gwneud i chi deimlo'n gyfforddus. Ac wedyn byddwch chi siŵr o fod mewn grŵp o ryw wyth neu naw a bydd camau amrywiol, felly dwi'n meddwl efallai ein bod ni wedi cael sesiwn torri'r garw i ddod i nabod pobl, ac wedyn byddech chi'n cael sesiwn chwarae rôl ble byddech chi efallai gyferbyn â chleient a byddai modd i chi drafod senario. Byddech chi hefyd yn cael ymarfer ysgrifenedig ble byddai angen i chi wneud ychydig o waith archwilio, ac felly maen nhw'n ceisio dod i wybod a fyddech chi'n gymwys ar gyfer y swydd, ond dwi'n meddwl hefyd, gyda Swyddfa Archwilio Cymru, maen nhw eisiau i chi eu deall nhw hefyd, oherwydd mae yna ddewis. Dyw hi ddim fel pe baen nhw'n mynd i'ch cymryd chi, doed a ddelo. Rydych chi'n cael dewis a ydych chi'n mynd yno ai peidio. Felly, dwi'n meddwl fod pwyslais gwirioneddol arnyn nhw'n eich helpu chi i ddeall y sefydliad. Maen nhw'n gwahodd hyfforddeion fel ni, a fyddai yn yr un sefyllfa, i ddod i sgwrsio gyda chi. Maen nhw'n dod â rheolwyr archwilio i mewn i siarad gyda chi dros ginio, felly mae 'na bwyslais go iawn ar… mae'n llifo'r ddwy ffordd. Nid dim ond nhw sy'n craffu arnoch chi. Rydych chi yno i ddysgu am y sefydliad hefyd. Dyna ges i o fynd i'r diwrnod asesu a'r broses asesu.

**Harriet Rees**
Ie, am wn i taw dyna wnes i hoffi am Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n wahanol i gynlluniau ôl-radd eraill wnes i wneud cais i fynd arnyn nhw… dwn i ddim sawl un o'r rhain wnest ti Simon, ond fe wnes i bob un oeddwn i'n gallu. Rhan gyntaf eich cais yw'r profion gallu yma ar lein ac yn achos y rhan fwyaf o'r cwmnïau mawr, rydych chi'n gwneud y profion gallu yma ac maen nhw'n cael eu marcio ar lein, ac ar unwaith rydych chi'n cael gwybod ydych chi wedi pasio ai peidio. Ac os nad ydych chi'n dod drwy'r profion hynny, dydych chi ddim yn cwrdd â bod dynol hyd nes i chi basio'r profion yna, a dim ond bob rhyw chwe mis allwch chi roi cynnig arnyn nhw neu rywbeth fel'na. Felly, y gwahaniaeth gyda Swyddfa Archwilio Cymru  yw hyn: yn rhan gyntaf gwneid cais, roedd angen i fi ateb pedwar cwestiwn, felly roedd yn rhaid i fi ysgrifennu rhyw 500 gair neu rywbeth ar gyfer

pob cwestiwn. Dwi'n meddwl taw un ohonyn nhw oedd 'Rhowch enghraifft o adeg y bu i chi ddangos menter' neu 'pam ydych chi'n meddwl fod Swyddfa Archwilio Cymru yn ffitio chi'n dda?', felly byddech chi'n ateb y cwestiynau hynny, a'u hanfon i ffwrdd ac wedyn byddai Swyddfa Archwilio Cymru'n dod yn ôl a bydden nhw'n eich gwahodd i'r ganolfan asesu a byddai angen i chi wneud y prawf gallu bryd hynny. Felly, rydych chi i bob pwrpas… dyw'r drws ddim yn cau i chi reit ar y dechrau, ac roeddwn i, wyddoch chi, fe gymerodd hi oesoedd i fi ddod drwy'r profion gallu yna ar gyfer cwmnïau eraill felly dwi'n meddwl ei bod hi'n ffordd dda o'ch cael eich hun i amlygrwydd a chael eich dewis o'r dechrau, ond dwi'n meddwl fod gyda chi well cyfle o fod yn chi eich hun wrth wneud cais i Swyddfa Archwilio Cymru nag y cewch chi weithiau gyda'r cwmnïau.

**Simon Papworth**
Dwi'n bendant yn cytuno. Wnes i gymaint o'r profion gallu yna, a chymryd oriau i'w gwneud nhw. Felly, ydw, dwi'n meddwl fod Swyddfa Archwilio Cymru yn bendant yn rhoi'r cyfle yna i chi gwrdd â nhw gyntaf, a'r peth mwyaf pwysig yw wyneb yn wyneb, mae ganddyn nhw gonsyrn drosoch chi yn hytrach na'ch gallu i ateb problemau cryptig.

**Harriet Rees**
A dwi'n meddwl hefyd, ar ôl fy nghanolfan asesu, waeth ydych chi'n llwyddiannus ai peidio, rydych chi'n cael cyfle i ffonio Siân. Mae hi'n rhoi adborth personol i chi, felly maen nhw'n rhoi sgôr i chi. Dyna sut maen nhw'n rhedeg y ganolfan asesu. Maen nhw'n rhoi sgôr allan o 10 i chi ar rai pethau. A dwi'n meddwl fy mod i wedi ffonio'n ôl yr wythnos ar ôl fy un u ac fe roddodd hi bob un o fy sgoriau i fi a dweud yn union beth roedden nhw'n meddwl oedd fy nghryfderau, a beth oedd ddim cystal, oedd, yn fy marn i, yn wirioneddol ddefnyddiol wedyn, nid dim ond ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru ond ar gyfer lleoedd eraill hefyd. Hyd yn oed os nad ydych chi'n llwyddiannus, mae ganddyn nhw bethau ar waith i'ch helpu chi, sy'n hyfryd, a dweud y gwir.

**Alex Swift**
Fe sonioch chi am y pandemig. Nawr, Harriet, fe ddechreuaist ti ar dy raglen ôl-radd yn ystod y pandemig. Simon, rwyt ti wedi bod yma ers 2018, meddet ti, ond rydych chi eich dau yn amlwg wedi profi gweithio yn ystod pandemig, Sut oedd hynny i chi?

**Harriet Rees**
Dwi ddim yn gwybod am ddim byd gwahanol. Ro'n i i fod i ddechrau ym mis Ebrill, a chafodd hwnnw'i symud yn ôl wedyn oherwydd COVID. Roedden nhw'n gobeithio y byddai modd i ni gael ein sesiynau cynefino wyneb yn wyneb, ond wnaeth hynny ddim digwydd. Ac felly, do, fe ddechreuais i ym mis Hydref a gweithio o gartref a wnes i ddim cwrdd â neb. Fe ddechreuon ni fynd yn ôl i'r swyddfa ym mis Ebrill, Felly ro'n i yma am o leiaf chwe mis cyn i fi ddechrau cwrdd â phobl go iawn, a dwi'n meddwl fod rhai pobl wedi dweud, 'o, wyddost ti, rhaid ei bod hi wedi bod mor anodd gwneud dy arholiadau gartref, ac astudio gartref, a pheidio â chael cefnogaeth gyda'r arholiadau'. Doedd gen i ddim byd i ddwyn fy sylw Do'n i ddim yn gorfod dweud na wrth fy ffrindiau pan oedden nhw'n mynd mas ar y penwythnos am nad oedd neb yn mynd mas. Felly, dwi'n teimlo fod hynny'n eithriadol gadarnhaol i fi. A dwi'n meddwl hefyd fod pobl wedi gwneud ymdrech arbennig i gyflwyno'i hunain, oherwydd nid y 'o wel, dwi ddim wedi taro arnyn nhw yn y swyddfa', oedd hi. Rhaid iddyn nhw fynd allan o'u ffordd i gyflwyno'u hunain, Felly, roedd hynny'n

iawn gen i, ond dwi wedi dwlu ar fynd i mewn i'r swyddfa. Dwi wir yn caru gweithio, a gyda phobl eraill, a hwylustod gallu gofyn, gofyn cwestiynau a gwybod fod pobl yn cael y sgyrsiau yna ar hap yn lle bod pob sgwrs yn sgwrs bwrpasol. Am wn i ei bod hi wedi bod yn fwy o newid i ti Simon.

**Simon Papworth**
Do, felly fe ddechreuais i ym mis Medi 2019, felly fe ges i chwe mis o weithio normal, ac fe ges i gwrdd â phawb. Felly, ie, yn wahanol i Harriet yn hynny o beth, ond am wn i pan ddaeth COVID, roedd pawb yn yr un cwch Nid dim ond fi a'r hyfforddeion, ond y sefydliad cyfan, ffordd hollol wahanol o weithio, ac roedd hynny'n dda iawn. Dwi'n meddwl am fy rheolwr llinell, fe fydden ni'n cadw cyswllt yn rheolaidd, a, wyddoch chi, roedd y sefydliad yn delio'n dda iawn â'r math yna o ddiffyg amser wyneb yn wyneb. Yn hytrach, rydyn ni'n cael mwy o gyfarfodydd gyda'n gilydd, oedd yn dda. Roedd y flwyddyn yn anodd dwi'n meddwl ar gyfer dysgu. Roedd datblygu'n anodd oherwydd dwi'n meddwl mod i'n dysgu drwy wylio. Dwi'n dysgu, chi'n gwybod, drwy weld y rheolwyr archwilio, neu weld pobl uwch yn y swyddfa, a sut maen nhw'n gweithio. Felly roedd hynny ychydig yn fwy anodd. Felly dwi'n bendant yn hapus i fod yn ôl yn y swyddfa'n fwy rheolaidd, ond am wn i y bydd dyfodol ein gwaith yn ymwneud mwy â gweithio o gartref. Mae'n bendant wedi cyflymu gweld pobl yn gweithio o gartref. Dwi'n meddwl fod hynny wastad yn mynd i fod yn rhywbeth ar gyfer y dyfodol, ond dwi'n meddwl nawr ein bod ni oll yn gwybod ei fod yn gweithio.

**Harriet Rees**
Beth sydd orau gen ti? Oes well gen ti weithio gartref, neu oes well gen ti'r swyddfa?

**Simon Papworth**
Dwi'n hoffi'r gymysgedd, Dwi'n meddwl mod i'n bendant yn hoffi cael deuddydd yn y swyddfa a thridiau gartref. Dwi'n meddwl fod hynny'n gweithio'n dda iawn, ond does dim byd cystal â chwrdd â phobl.

**Alex Swift**
Ar nodyn cysylltiol, i ddod â hyn i'w derfyn, beth yw eich gobeithion ar gyfer y dyfodol? Beth yw eich uchelgais, os dymunwch?

**Simon Papworth**
Yn y tymor byr, byddwn wrth fy modd yn graddio o'r cynllun hwn, a dod yn wir gyfrifydd siartredig. Dwi'n gwybod fod hynny, efallai eich bod chi'n meddwl, 'o, dyw hwnna ddim yn nod uchel iawn', ond mae'n broses anodd. Os ydych chi eisiau cael her, os ydych chi eisiau datblygu eich hunan a thyfu, yna mae hyn yn wych, ond mae'n anodd. Dwi'n meddwl mai'r arholiadau yw'r arholiadau anoddaf i mi eu sefyll. Felly, dwi'n meddwl ar gyfer y gobaith am y dyfodol yn fy ngwaith, fe fyddwn wrth fy modd ymhen dwy flynedd i ddweud 'do, fe wnes i gyflawni hynny, Mae hynny'n wych' ond dwi'n meddwl, yn gyffredinol, chi'n gwybod, gyda gwaith a gyda bywyd, yr hyn rydych chi eisiau yw bodlonrwydd. Gallwch barhau i wthio a bod eisiau cael eich ysgogi ar gyfer mwy a mwy, Ond ar ryw bwynt, rhaid i chi fodloni yn y swydd ble rydych chi a'r gwaith rydych chi'n ei wneud. Dwi'n meddwl, ie, eithaf niwlog, ond, ie, bod yn fodlon ble rydw i.

**Harriet Rees**

Ie, dwi'n cytuno'n llwyr. Hoffwn ddweud cymhwyso fel nod cyntaf, ac mae'n wir, Mae'n anodd. Wrth gwrs dim ond lefel tystysgrif dwi wedi'i wneud hyd yn hyn, ac roedd y rheiny'n ddigon caled, a dwi ddim hyd yn oed eisiau… dwi'n dechrau ar fy arholiadau nesaf ym mis Ionawr ac mae pawb yn dweud wrthyf am fod yn barod. Felly ydw, dwi'n nerfus ar gyfer hynny, ond dyna fydd y nod cynaf, ac am wn i mod i eisiau cael fy hun mewn safle ble mae gen i ddewisiadau a dwi'n meddwl fod cyfrifyddiaeth yn broffesiwn mor eang. Mae swyddi ymhob sector o fywyd, fwy neu lai, a'r math o swydd, y swydd feunyddiol y gallwch chi ei gwneud gyda chyfrifo, gall fod yn eithaf gwahanol Felly, dwi'n meddwl mai fy nod yw cymryd pob cyfle alla i, a cheisio cael cymaint o brofiad ag y galla i mewn meysydd gwahanol tra mod i yma, oherwydd maen nhw'n annog hynny hefyd. Ac felly, ie, dwi eisiau bod mewn lle ble mae gen i ddewisiadau, ac ydw, dwi'n meddwl fod dewis yn prynu hapusrwydd i chi. Ie, gallwch chi ddewis beth rydych chi eisiau ei wneud ar gyfer yr hyn sy'n addas i chi. Felly, ie, dyna fy ngobaith i ar gyfer y dyfodol.